



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

TYLLU PERSONOL

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

Canllawiau i Swyddogion Gorfodi ar Weithredu Rhan 5 –
Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff

Cynnwys

1.	Diben y canllawiau	3
2.	Cefndir y ddeddfwriaeth	3
3.	Trosolwg o Ran 5	4
4.	Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff	5
5.	Amddiffyniadau	10
6.	Gorfodi	11
7.	Troseddau pellach	14
8.	Atodiad 1 – Crynodeb o droseddau	15

1. Diben y canllawiau

Diben y canllawiau anstatudol hyn yw cynorthwyo awdurdodau lleol a'r heddlu i weithredu'n llwyddiannus Ran 5 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (y Ddeddf) a ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2018:

www.legislation.gov.uk/anaw/2017/2/part/5/enacted/welsh

Prif ddiben Rhan 5 o'r Ddeddf yw atal y weithred o roi twll mewn rhan bersonol o gyrff plant a phobl ifanc sy'n iau na 18 oed.

Datblygwyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Leol, yr Heddlu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd. Dylid eu darllen ochr yn ochr â Deddf 2017. Gellir lawrlwytho copïau o'r canllawiau yn o wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/tyllu-rhannu-personol-or-corff-canllawiau-i-swyddogion-gorfodi-mewn-awdurdodau-lleol>

2. Cefndir y ddeddfwriaeth

Derbyniodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 Gydsyniad Brenhinol ar 3 Gorffennaf 2017. Mae'r Ddeddf yn rhoi sylw i nifer o bryderon iechyd y cyhoedd penodol: tybaco a chynhyrchion nicotin; 'triniaethau arbennig' (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatwio); rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff; gwasanaethau fferyllol; a'r ddarpariaeth o doiledau at ddefnydd y cyhoedd.

Mae Rhan 5 o'r Ddeddf yn rhoi gwaharddiad ar roi twll mewn rhan bersonol o gyrff plant a phobl ifanc sy'n iau na 18 oed, ac fe ddaeth i rym ar 1 Chwefror 2018.

Er efallai y bydd llawer o ymarferwyr tyllu'r corff yn dewis peidio â rhoi tyllau mewn rhannau personol o gyrff plant a phobl ifanc, mae'r darpariaethau yn y Ddeddf yn cynnig mwy o eglurder a chysondeb yn y gyfraith ar y mater hwn. Nod gwaharddiad y Ddeddf ar roi twll mewn rhan bersonol o gyrff pobl iau na 18 oed yw amddiffyn plant a phobl ifanc rhag niweidion iechyd posibl rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, ac osgoi amgylchiadau lle mae plant a phobl ifanc yn cael eu rhoi mewn sefyllfa a allai eu gadael yn agored i niwed.

3. Trosolwg o Ran 5

Mae'r Ddeddf yn diffinio rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff fel tyllu croen neu bilen fwcaidd yr anws, y fron, y ffolen, rhych y pen ôl, y pidyn, y perinëwm, y mons pubis, y ceillgwd, y tafod neu'r fwlf.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i rywun roi twll, neu wneud trefniadau i roi twll, mewn rhan bersonol o gorff person sy'n iau na 18 oed. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person ifanc dan 18 oed er mwyn i drosedd gael ei chyflawni - mae gwneud trefniadau ar gyfer hynny hefyd yn drosedd.

Nid yw'r darpariaethau hyn yn berthnasol ar sail ôl-weithredol ac felly nid yw achosion o roi twll mewn rhan bersonol o gyrff plant a phobl ifanc iau na 18 oed cyn 1 Chwefror 2018 yn cael eu cosbi o dan y gyfraith newydd hon. Fodd bynnag, byddai cael gwared ar dwll a roddwyd mewn rhan bersonol o'r corff a wnaed cyn i'r gwaharddiad ddod i rym yn cael ei gosbi pe bai cael gwared arno yn golygu torri cyfanrwydd y croen neu'r bilen fwcaidd.

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer amddiffyniad 'diwydrwydd dyladwy' i rywun sy'n cynnig rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, neu'n gwneud hynny, os yw wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y person sy'n gofyn am dwll mewn rhan bersonol o'r corff yn 18 oed neu'n hÿn, fel gwirio ei oedran. Nid yw cydsyniad yn amddiffyniad - ni fydd y ffaith bod person iau na 18 oed wedi rhoi ei gydsyniad, neu bod rhiant neu warcheidwad wedi rhoi cydsyniad ar ei ran, yn cyfrif o gwbl.

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r darpariaethau, gan gynnwys cyflwyno erlyniadau, ymchwilio i gŵynion a chymryd camau eraill. Gallai'r camau hyn gynnwys cyfathrebu ag ymarferwyr tyllu'r corff a'u haddysgu, neu gynnal arolygiadau 'prynu prawf' i asesu cydymffurfiad.

Mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â'r heddlu fel y mae'n ei ystyried yn briodol wrth gymryd camau gorfodi.

4. Rhoi Twll Mewn Rhan Bersonol o'r Corff

4.1 Diffiniadau Allweddol

Mae'r Ddeddf yn diffinio rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff fel triniaeth tyllu 'rhan bersonol o'r corff', pan fo'n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol.

Ystyr "tyllu'r corff" ("body piercing") yw gwneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu unrhyw wrthrych nad yw'n emwaith fel y rhagnodir mewn rheoliadau¹, gael ei atodi i gorff yr unigolyn, ei fewnblannu yng nghorff yr unigolyn neu ei dynnu o gorff yr unigolyn.

Mae tyllu croen neu bilen fwcaidd unigolyn yn cynnwys gwneud bwlch yng nghyfanrwydd y croen neu'r bilen fwcaidd mewn unrhyw ffordd, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) drwy bric neu endoriad.

Mae'r 'rhannau personol o'r corff' a restrir yn y Ddeddf yn berthnasol i bob rhywedd, fel a ganlyn:

- yr anws
- y fron (gan gynnwys y deth a'r areola)
- y ffolen
- rhych y pen ôl
- y pidyn (gan gynnwys y blaengroen)
- y perinëwm
- y mons pubis
- y ceillgwd
- y tafod
- y fwlfa.

Mae "triniaeth feddygol" yn cael ei diffinio fel triniaeth a gyflawnir gan ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs gofrestrdig neu fydwraig gofrestrdig, at ddibenion y canlynol, neu mewn cysylltiad â diagnosis, atal, monitro, trin neu liniaru clefyd, afiechyd, anabled, neu annormaledd corfforol neu feddyliol arall, neu atal cenhedlu.

4.2 Troseddau

4.2.1 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson yng Nghymru roi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 18 oed, neu wneud trefniadau i roi, yng Nghymru, twll mewn rhan bersonol o gorff person penodol sydd o dan 18 oed.

4.2.2 Rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson yng Nghymru roi twll mewn rhan bersonol o gorff person dan 18 oed.

Senario

Mae bachgen 14 mlwydd oed A yn ymweld â'i fusnes tyllu'r corff lleol ac yn gofyn i dyllwr B roi twll yn ei deth. Mae'r tyllwr corff yn gwneud hynny. Caiff y digwyddiad ei adrodd i'r awdurdod lleol gan rieni A. Mae'r tyllwr B a roddodd y twll yn y corff yn y busnes wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf.

Mae'r diffiniad o dyllu'r corff yn ymestyn i wneud trydylliad yng nghroen neu ym mhilen fwcaidd unigolyn, gyda golwg ar alluogi i emwaith, neu wrthrych o ddisgrifiad a ragnodir mewn rheoliadau neu o dan reoliadau, gael ei dynnu o gorff yr unigolyn.

¹ Rheoliadau Gwrthrychau Rhagnodedig ar gyfer Rhoi Twll mewn Rhan Bersonol o'r Corff (Cymru) 2019, sydd i'w gweld yma: <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2019/1120/contents/made/welsh>

Senario

Mae D, sy'n 17 oed, yn gofyn i dyllwr corff E dynnu tylliad barbwysau sydd wedi dod yn sownd yn un ochr rhych ei ben ôl. Mae angen i E wneud trydylliad yng nghroen D i dynnu'r barbwysau yn llwyddiannus. Mae E yn gwneud hynny. Cyflawnwyd trosedd gan E gan fod y trydylliad wedi cael ei wneud gyda golwg ar alluogi i emwaith gael ei dynnu o gorff D. Dylai E fod wedi cynghori D i weld ei feddyg teulu.

Ystyr 'person' yng Nghymru yw bod dynol yn gyffredinol, ond gall hefyd gynnwys corff o bersonau fel partneriaeth a chymdeithasau corfforaethol neu anghorfforedig. Mae'r Ddeddf hefyd yn nodi y gall trosedd gael ei chyflawni gan gorff corfforaethol. Sefydliad neu grŵp o bersonau a nodir gan enw penodol ac sy'n gweithredu, neu a allai weithredu, fel endid cydnabyddedig neu berson cyfreithiol yw hwn. Mae'n cynnwys cwmnïau, cymdeithasau, sefydliadau, mentrau dielw, a chyrrff cyhoeddus.

O dan y Ddeddf, gellir dwyn uwch swyddogion cwmnïau a sefydliadau, fel cyfarwyddwr, ysgrifenyddion cwmnïau, ac uwch reolwyr busnesau i gyfrif pan fydd trosedd wedi cael ei phrofi. Mae hyn yn berthnasol lle gellir dangos bod y drosedd wedi cael ei chyflawni trwy eu cydsyniad, eu hymoddefiad neu eu hesgeulustod.

Gall uwch swyddogion cwmnïau fel cyfarwyddwyr neu ysgrifenyddion cwmnïau fod yn euog o drosedd lle gellir dangos bod trosedd wedi cael ei chyflawni trwy eu hesgeulustod, h.y. pan fyddant wedi methu â rhoi gweithdrefnau ar waith i atal y weithred rhag cael ei chyflawni, neu wedi rhoi gweithdrefnau ar waith ond wedi methu â sicrhau eu bod yn cael eu dilyn, neu drwy ymoddefiad gweithredol, e.e. pan anwybyddwyd ymgymeriad â gweithgareddau tyllu'r corff o dan yr oedran priodol ar lefel rheolwyr. Gellir cymryd camau yn erbyn y cwmni/sefydliad mewn achos o'r fath, gan gyfeirio at weithgarwch yr unigolyn yn y cwmni fel yr ymddygiad troseddol.

Senario

Mae Cwmni X yn berchen ar fusnes tyllu'r corff. Mae Cyfarwyddwr A o Gwmni X yn dweud y dylai staff ganiatáu i unrhyw un sy'n fodlon talu gael twll mewn rhan bersonol o'r corff. Cafodd Cwsmer B, 15 oed, dwll yn ei dafod gan aelod o staff Busnes C y mae Cwmni X yn berchen arno. Adroddwyd y digwyddiad i'r awdurdod lleol gan rieni B. Profwyd fod y tyllwr a wnaeth y twll ym Musnes C wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf. Roedd agwedd Cyfarwyddwr A wedi cyfrannu at y drosedd ac felly roedd Cyfarwyddwr A wedi cyflawni trosedd hefyd.

Mae canllawiau pellach ar weithredu yn sgil trosedd yr honnwyd iddi gael ei chyflawni gan gyrff corfforaethol ac ati ar gael yn adrannau 120 a 121 o'r Ddeddf.

Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy anghyfyngedig.

4.2.3 Gwneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff

Fel y nodir ym mharagraff 4.2.1, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i berson yng Nghymru wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person penodol sydd o dan 18 oed yng Nghymru.

Senario

Mae A, sy'n 17 mlwydd oed, yn ymweld â stiwdio tyllu'r corff yng Nghaerdydd ac yn gwneud apwyntiad gyda B i gael tyllu ei dafod, yn y stiwdio, yr wythnos ddilynol. Nid yw B yn gofyn i A faint yw ei oed. Mae trosedd wedi cael ei chyflawni gan B gan ei fod wedi gwneud trefniant i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person penodol (A) sydd o dan 18 oed yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn berthnasol yng Nghymru yn unig. Mae'n rhaid i'r person sy'n gwneud y cynnig i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person sy'n iau na 18 oed fod yn bresennol yng Nghymru pan fydd yn gwneud y cynnig. Mae'n rhaid i'r lle y bydd y tylliad yn cael ei wneud fod yng Nghymru hefyd. Mae'r term 'person penodol' yn golygu unigolyn penodol.

Senario

Mae T, 22 oed, o Fryste yn trefnu penwythnos Parti Plu ei ffrind gorau mewn tŷ rhent ym Mhowys. Nid yw T yn adnabod pob un o'r 12 o ferched sy'n dod ar y penwythnos ond, yn rhan o'r dathliadau, mae'n dymuno i bob un ohonynt fwynhau parti tyllu'r corff a chael tyllau yn eu tethi. Mae T yn ffonio ac yn trefnu apwyntiad grŵp yn uniongyrchol â thyllwr peripatetig (P) o Aberhonddu i ddod i'r parti a rhoi twll yn nhethi pob un o'r 12 o fenywod.

Nid yw T yn gwybod faint o'r 12 fydd yn cytuno i hyn ac felly nid yw'n rhoi rhestr o enwau i'r tyllwr. Mae tair o'r merched yn iau na 18 oed. Mae mam un o'r merched sy'n 13 oed yn ofidus am y trefniadau a wnaed ac yn ffonio'r awdurdod lleol i gwyno.

Nid yw P wedi cyflawni trosedd gan nad yw wedi gwneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff 'person penodol'. Mae'r apwyntiad ar gyfer grŵp o bobl amhenodedig. Byddai wedi bod yn ddoeth i P rybuddio T na fyddai cyrff y rheini sy'n iau na 18 oed yn cael eu tyllu, yn enwedig gan fod T o Loegr ac efallai nad yw'n ymwybodol o'r gyfraith yng Nghymru.

Senario

Mae C, sy'n 15 mlwydd oed ac yn byw yng Nghymru, yn ymweld â chonfensiwn tatwio a thyllu'r corff ym Mryste ac yn trefnu apwyntiad gydag arddangosydd 'B', sydd wedi ei leoli yng Nghaerdydd, i gael tyllu ei theth, yn ei stiwdio yng Nghaerdydd, yr wythnos ddilynol.

Nid oes trosedd wedi cael ei chyflawni gan B oherwydd na wnaed y trefniant i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff yng Nghymru. Fodd bynnag, os bydd B yn tyllu teth C, yn y stiwdio yng Nghaerdydd, byddai trosedd yn cael ei chyflawni gan y byddai B wedi rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person sy'n iau na 18 oed yng Nghymru.

Senario

Mae D, sy'n 14 mlwydd oed, yn ymweld â chonfensiwn tatwio a thyllu'r corff yng Nghaerdydd ac yn trefnu apwyntiadau gydag arddangosydd E, sydd wedi ei leoli ym Mryste, i gael tyllu ei dafod, yn ei stiwdio ym Mryste, yr wythnos ddilynol.

Nid oes trosedd wedi cael ei chyflawni gan E, oherwydd er i'r trefniant i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff gael ei wneud yng Nghymru, byddai'r corff yn cael ei dyllu y tu allan i Gymru. Os bydd E yn tyllu tafod D ym Mryste, ni fyddai unrhyw drosedd wedi cael ei chyflawni o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 gan nad yw Rhan 5 o'r Ddeddf yn berthnasol y tu allan i Gymru.

4.2.4 Helpu ac annog

Mae person sy'n helpu, yn annog, yn cynghori neu'n caffael person arall i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff ar berson sy'n iau na 18 oed yn euog o'r drosedd a gyflawnir gan y prif arferwr ac yn agored i'r un cosbau. Trosedd y prif arferwr y mae'r person sy'n helpu neu'n annog yn atebol amdani.

Wrth benderfynu a yw unrhyw weithred benodol yn achos o 'helpu, annog, cynghori neu gaffael', dylid dehongli'r geiriau yn eu hystyr gyffredin ac nid mewn synnwyr technegol. Er enghraifft, 'annog' yw ystyr cyffredin 'cynghori' ac mae'n cynnwys cyngor, gwybodaeth, anogaeth neu gyflenwi offer cyn cyflawni trosedd gan amlaf, ac yn ymhlygu cytundeb â'r prif arferwr.

Senario

Mae ffrind H, sy'n dderbynnnydd mewn stiwdio tyllu'r corff, J, sy'n 14 mlwydd oed ac eisiau twll yn ei thafod yn gofyn iddi a fyddai hyn yn bosibl. Mae H yn ymwybodol bod J yn iau na 18 oed ond yn gwneud trefniadau er gwaethaf hynny i J gael tyllu ei thafod trwy drefnu apwyntiad i J gyda'r tyllwr corff K, sy'n gweithio yn y stiwdio. Mae K yn rhoi twll yn nhafod J wedi hynny.

Mae K ac H wedi cyflawni trosedd. Mae H hefyd yn atebol am drosedd K er na roddodd H y twll yn nhafod J ei hun.

Senario

Mae L yn 17 oed ac eisiau cael twll yn ei theth fel merched eraill yn ei grŵp yn yr ysgol. Mae'n gofyn i M, ei ffrind, sy'n 18 oed ac wedi cael twll yn ei theth eisoes, i'w helpu. Mae M yn mynd at y tyllwr lle cafodd dyllu ei theth i drefnu apwyntiad ar gyfer L. Mae'r derbynnnydd, P, yn gofyn i M a yw L dros 18 oed. Mae M yn ei sicrhau ei bod hi, gan ddweud bod L yn yr un flwyddyn ysgol ag y mae hi a'i holl ffrindiau, y mae pob yn ohonynt wedi cael tyllu ei chorff yn y stiwdio. Mae'r derbynnnydd P yn trefnu apwyntiad ar gyfer L. Mae L a'i ffrind M yn cyrraedd ar yr amser penodedig, ac mae P yn mynd ag L i'r stiwdio, lle mae'r tyllwr, K, yn tyllu ei chorff.

Mae M wedi cyflawni'r drosedd o gaffael y tylliad, gan ei bod yn gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol, gan wybod nad yw L yn 18 oed. Mae P yn euog o drefnu'r tylliad trwy drefnu'r apwyntiad heb wneud gwiriadau priodol – mae ganddi ddau gyfle i wneud hynny, ar adeg trefnu'r apwyntiad a phan maent yn dod i'r stiwdio, ac nid yw'n manteision ar yr un o'r ddau. Mae K wedi cyflawni trosedd o roi'r twll yn y corff gan nad yw'r gwneud unrhyw wiriadau o gwbl, gan ddibynnu yn hytrach ar P.

4.3 Eithriad ar gyfer triniaeth feddygol

Mae'r Ddeddf yn diffinio rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff fel rhoi twll mewn 'rhan bersonol o'r corff', pan fo'n cael ei roi ac eithrio yng nghwrs triniaeth feddygol.

Mae triniaeth feddygol yn driniaeth a gyflawnir gan ymarferydd meddygol cofrestredig, nyrs gofrestrdig neu fydwraig gofrestrdig, at ddibenion y canlynol, neu mewn cysylltiad â'r canlynol:

- diagnosio, atal, monitro, trin neu liniaru clefyd, afiechyd, anabledd, neu annormaledd corfforol neu feddyliol arall, neu
- atal cenhedlu.

Senario

Mae F yn 15 oed ac wedi cae gwrthod twll yn ei thafod gan ei stiwdio tyllu'r corff leol. Mae F yn benderfynol o gael twll yn ei chorff ac yn gofyn i'w modryb G, nyrs gofrestrdig, i roi'r twll yn ei chorff. Mae G yn cytuno ac yn rhoi twll yn nhafod ei nith, F.

Nid yw'r eithriad triniaeth feddygol yn berthnasol gan na roddwyd y twll yn y corff yng nghwrs triniaeth feddygol, er iddo gael ei wneud gan nyrs gofrestrdig. Mae G wedi cyflawni trosedd.

5. Amddiffyniadau

Mae llymder y drosedd yn golygu bod unrhyw un yng Nghymru sydd naill ai'n rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person sy'n iau na 18 oed, neu'n gwneud trefniadau i roi, yng Nghymru, twll mewn rhan bersonol o gorff person penodol sydd o dan 18 oed, yn cyflawni trosedd. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn cynnig amddiffyniad os bydd y cyhuddedig, trwy reswm ei ymddygiad ei hun, yn dangos ei fod yn credu fod y person iddo roi twll yn ei gorff neu y gwnaeth i drefniadau i roi twll yn ei gorff yn hŷn na 18 oed a naill ai:

- wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran y person hwnnw, neu
- na allai neb fod wedi amau'n rhesymol o olwg y person hwnnw fod y person o dan 18 oed.

Mae'r person a gyhuddwyd o roi twll mewn rhan bersonol o gorff person iau na 18 oed i gael ei drin fel pe bai wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran person arall os gofynnodd y cyhuddedig i'r person hwnnw am dystiolaeth o oedran y person hwnnw, a pe bai'r dystiolaeth wedi argyhoeddi person rhesymol.

Mae canllawiau ar gyfer busnesau tyllu'r corff yn cyflwyno enghreifftiau o gamau rhesymol y gellir eu cymryd i ddarganfod oedran cleient. Er nad ydynt wedi eu rhagnodi gan y Ddeddf, gallai busnes tyllu'r corff ddefnyddio'r dogfennau canlynol yn rhesymol i wirio oedran eu cleientiaid:

- pasbort
- trwydded yrru cerdyn ffotograff Undeb Ewropeaidd
- cerdyn adnabod ffotograffig yn dangos hologram y Cynllun Safonau Prawf Oedran (PASS) cenedlaethol.

Pan fo person wedi ei gyhuddo o'r drosedd o roi neu drefnu i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person sy'n iau na 18 oed oherwydd gweithred neu ddiffyg person arall, neu yn rhinwedd cymhwyso adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (person sy'n helpu, yn annog, yn cynghori neu'n caffael), mae'n amddiffyniad dangos bod y cyhuddedig wedi cymryd rhagofalon rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.

Gellir defnyddio'r gweithdrefnau canlynol i gynorthwyo gyda chydymffurfiad â'r Ddeddf a dangos diwydrwydd dyladwy:

- hyfforddi a chynghori staff ar yr hyn yw rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff a sut i wirio oedran defnyddwyr, gan gynnwys y mathau o ddogfennau y gellir eu defnyddio i brofi oedran
- sicrhau proses ddeuol ar gyfer gwirio oedran – trwy ddarganfod oedran y cleient cyn trefnu apwyntiad/gwneud trefniadau i dyllu'r corff, a gwirio wedyn wrth roi'r twll mewn rhan bersonol o'r corff, hyd yn oed os yw aelodau staff eraill wedi cyflawni gwiriadau
- bod â gweithdrefnau ysgrifenedig i staff ar gyfer ymdrin â phobl a allai fod yn iau na 18 oed – hyfforddi staff yn y gweithdrefnau hyn a chadw cofnodion o'r hyfforddiant hwn
- cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad (a chanlyniad) lle mae aelod o staff yn herio darpar gwsmer am ei oedran
- cymryd llungopiau (gyda'u caniatâd) o ddogfennau a ddarperir gan gwsmeriaid i brofi eu bod yn 18 oed neu'n hŷn
- cadw cofnodion ysgrifenedig ar gyfer pob defnyddiwr ar gyfer pob triniaeth a chadw copiau o ddogfennau perthnasol
- defnyddio awgrymiadau til ar gyfer trafodion rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff, os yw'r cyfleuster ar gael
- arddangos hysbysiadau amlwg ac eglur na chaniateir i unrhyw un iau na 18 oed wneud trefniadau i gael, na chael, twll mewn rhan bersonol o'r corff
- darparu gwybodaeth am y cyfyngiadau ar roi twll mewn rhan bersonol o'r corff mewn llyfrynnau hysbysebu, cyfeiriaduron gwasanaeth, gwefannau ac ati.

6. Gorfodi

6.1 Awdurdodau Lleol

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r Ddeddf. Cyngor y sir neu'r bwrdeistref sirol yng Nghymru yw ystyr awdurdod lleol. Caiff awdurdod lleol:

- ddwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throeddau yn ei ardal
- ymchwilio i gŵynion mewn cysylltiad â throeddau honedig yn ei ardal
- cymryd unrhyw gamau eraill gyda golwg ar ostwng nifer y troeddau sy'n digwydd yn ei ardal. Gallai'r rhain gynnwys camau fel cyfathrebu â thyllwyr corff a'u haddysgu, neu gynnal arolygiadau a phrynu prawf i asesu cydymffurfiad.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ystyried rhaglen orfodi, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeuddeng mis. Mae'n rhaid iddynt ystyried hefyd i ba raddau y mae'n briodol iddynt gynnal yn eu hardaloedd raglen o gamau gorfodi. Dylai'r rhaglen orfodi gymryd pob un neu unrhyw un o'r pwerau gorfodi gan gynnwys dwyn erlyniadau, ymchwilio i gŵynion a chymryd camau i ostwng nifer y troeddau yn eu hardaloedd.

Bydd angen i awdurdodau lleol benderfynu sut y maent yn ymdrin â chwynion a gwybodaeth y maent yn eu derbyn o wahanol ffynonellau yn rhan o'u rhaglenni gorfodi. Pan fydd yn datblygu eu rhaglenni gorfodi, mae'n rhaid i awdurdod lleol hefyd gynnal unrhyw ymgynghoriad y mae'n ystyried ei fod yn briodol â Phrif Swyddog yr Heddlu ar gyfer ei ardal heddlu.

6.2 Swyddogion awdurdodedig

Bydd angen i awdurdodau lleol nodi swyddogion awdurdodedig priodol (pa un a yw'n un o swyddogion yr awdurdod lleol ai peidio) i gyflawni dyletswyddau i sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf.

Ystyr "swyddog awdurdodedig" yw pob swyddog sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod lleol i wneud y gwaith o sicrhau cydymffurfiad â Rhan 5 y Ddeddf.

Gallai swyddogion presennol sy'n brofiadol yn y gwaith o gyflawni dyletswyddau gorfodi o ran busnesau, fel Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogion Safonau Masnach, wneud y gwaith hwn ac ymgorffori'r gwaith hwn yn eu gweithgareddau arolygu eraill.

Bydd angen i swyddogion fod yn awdurdodedig o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn unol â'u gweithdrefnau awdurdod lleol arferol.

6.3 Pwerau mynediad i fangroedd heb fod yn anheddau

Caiff cwnstabiliaid yr heddlu a swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol fynd i mewn i fangre ar unrhyw adeg resymol os oes ganddynt seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd wedi ei chyflawni. Gall mangre gynnwys unrhyw le, unrhyw gerbyd (ac eithrio awyren neu hofrenfad), stondin neu strwythur symudol ond nid yw'n cynnwys mangre ddomestig.

Caiff cwnstabl neu swyddog awdurdodedig gynnal arolygiadau ac archwiliadau yn y fangre. Gallant hefyd ei gwneud yn ofynnol cyflwyno unrhyw beth yn y fangre, ei arolygu, a chymryd a chadw samplau ohono neu echdynion ohono fel sy'n briodol. Gallant hefyd gymryd meddiant o unrhyw beth yn y fangre, a'i gadw am gyhyd ag y bydd yn ystyried ei bod yn angenrheidiol.

Mae gan gwnstablaid a swyddogion awdurdodedig y pŵer i gopïo dogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre a gosod gofynion o ran sut y darperir dogfennau (a allai gynnwys gofynion i ddarparu copïau darllenadwy o ddogfennau y deuir o hyd iddynt yn y fangre ac a gedwir yn electronig). Mae "dogfennau" yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei chofnodi ar unrhyw ffurf ac a gedwir ar gyfrifiaduron neu ddyfeisiau electronig eraill yn y fangre, a dogfennau a gedwir yn rhywle arall ac y gellir cael mynediad iddynt drwy gyfrifiaduron neu ddyfeisiau electronig eraill yn y fangre.

Mae gan gwnstablaid a swyddogion awdurdodedig yr hawl i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi gwybodaeth, neu ddarparu cyfleusterau a chymorth o'r fath y maent yn ei ystyried sy'n angenrheidiol.

Os bydd unrhyw beth yn cael ei gymryd o'r fangre, mae'n rhaid i'r cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig adael yn y fangre y cafodd ei gymryd ohoni ddatganiad sy'n rhoi manylion yr hyn sydd wedi ei gymryd ac yn nodi'r person y ceir gofyn iddo i'r eiddo gael ei ddychwelyd.

Bydd disgwyl i swyddogion awdurdodedig gyflwyno eu hawdurdod ysgrifenedig, ar gais busnes, cyn iddynt fynd i mewn i unrhyw fangre.

Os bydd angen mynd i mewn i fangre nad yw'n cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf fel annedd gan fod sail resymol dros gredu bod trosedd wedi ei chyflawni, a bod angen mynediad i gadarnhau a oes trosedd o'r fath wedi digwydd neu beidio, gellir ceisio gwarant gan ynad heddwch er mwyn awdurdodi'r cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre, drwy rym os oes angen.

6.4 Pwerau mynediad i anheddau

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog awdurdodedig, neu gwnstabl, gael gwarant gan ynad heddwch er mwyn mynd i mewn i fangre sy'n cael ei defnyddio yn llwyr neu'n bennaf fel annedd. Rhaid darparu gwybodaeth ysgrifenedig ar lw i'r ynad heddwch yn nodi'r sail resymol dros gredu bod trosedd wedi'i chyflawni, a pham bod angen mynediad i gadarnhau a oes trosedd o'r fath wedi digwydd neu beidio. Fel rheol byddai angen gwarant o'r fath pan fo cydsyniad y meddiannydd wedi'i geisio ond heb ei gael, neu os byddai hysbysiad o flaen llaw am yr ymweliad yn rhwystro diben y pwerau gorfodi. Wrth ystyried mynediad dan warant, rhaid i'r sawl sydd wedi'i awdurdodi ystyried pob gwybodaeth sydd ar gael cyn gwneud cais am warant, megis cymryd camau rhesymol (cyn belled ag y bo'n ymarferol) i gadarnhau bod yr wybodaeth yn gywir, yn ddiweddar a heb ei darparu'n faleisus.

Ceir canllawiau pellach ynghylch defnyddio gwarant yn gyffredinol yng Nghod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar Bwerau Mynediad.

<https://www.gov.uk/government/publications/powers-of-entry-code-of-practice>

6.5 'Pryniannau prawf'

Mae'r Ddeddf yn nodi y caiff swyddogion awdurdodedig wneud unrhyw bryniannau a sicrhau y darperir unrhyw wasanaethau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol. Byddai hyn yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig ddefnyddio gwasanaethau person addas sy'n iau na 18 oed i geisio gwneud trefniadau i gael rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff (prynu prawf). Ni fyddai'n briodol nac yn angenrheidiol i swyddog awdurdodedig ofyn i rywun sy'n iau na 18 oed geisio cael, neu gael, triniaeth i roi twll mewn rhan bersonol o'r corff.

Rhagwelir y gellir gorfodi'r Ddeddf heb ddefnyddio prynu prawf ond y gallai fod yn briodol mewn lleiafrif o achosion.

Senario

Mae awdurdod lleol yn derbyn cwyn bod tyllwr corff yng Nghymru yn tyllu pobl iau na 18 oed yn ei fusnes. Mae'r swyddog awdurdodedig yn cynnal asesiad risg ac yn gofyn i wirfoddolwr 16 mlwydd oed priodol i fynd i'r busnes o dan ei bŵer i sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau.

Ni ofynnir i'r unigolyn 16 oed ddarparu prawf o'i oedran gan y tyllwr ac mae'n llwyddo i wneud apwyntiad i gael twll yn ei deth yn y dyfodol. Mae'r tyllwr corff wedi gwneud trefniant i roi twll mewn rhan bersonol o gorff person penodol sy'n iau na 18 oed. Mae trosedd wedi cael ei chyflawni. Nid yw'r unigolyn 16 mlwydd oed yn cael tyllu ei gorff.

Ceir canllawiau pellach ar ddefnydd ehangach pryniannau prawf a gofynion o dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 yn 'Age Restricted Products and Services: A Code of Practice for Regulatory Delivery' sydd ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/code-of-practice-age-restricted-products>

Dylid nodi bod prynu prawf mewn perthynas â darpariaethau Rhan 5 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn wasanaeth.

7. Troseddau Pellach

Pan fydd arolygiadau ac ymchwiliadau yn cael eu cynnal, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o bobl yn cydweithredu â'r swyddog awdurdodedig neu'r cwnstabl.

Fodd bynnag, pan fydd y swyddog awdurdodedig neu'r cwnstabl yn cael ei rwystro'n fwriadol rhag cyflawni'r tasgau angenrheidiol i gwblhau'r arolygiad neu ymchwiliad trwy rwystro, mae hon yn drosedd o dan y Ddeddf, oni bai bod achos rhesymol.

Nid oes unrhyw ddiffiniad penodol o achos rhesymol, a gallai'r hyn sy'n rhesymol amrywio o berson i berson, a dibynnu ar amgylchiadau penodol achos.

Caiff y drosedd o rwystro ei chyflawni os bydd unrhyw berson yn methu â:

- darparu unrhyw gyfleusterau sydd eu hangen yn rhesymol – gallai hyn gynnwys man i eistedd a gwirio cofnodion, neu gael mynediad at offer i wyllo teledu cylch cyfyng ac ati
- darparu cymorth – fel dangos lle cedwir gwybodaeth, dangos sut y mae offer yn gweithio
- rhoi gwybodaeth – fel ymateb i gwestiynau, darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani.

Mae person sy'n euog o'r drosedd o rwystro yn agored i ddirwy nad yw'n uwch na Lefel 3 ar y raddfa safonol.

Trosedd	Amddiffyniad
<p>Adran 95.</p> <p>Y drosedd o roi neu wneud trefniadau i roi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn</p> <p>(1) Mae'n drosedd i berson yng Nghymru:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) roi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 18 oed, neu; (b) gwneud trefniadau i roi, yng Nghymru, dwll mewn rhan bersonol o gorff person penodol sydd o dan 18 oed. 	<p>Pan fo person ("y cyhuddedig") wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd ymddygiad y cyhuddedig ei hun mae'n amddiffyniad i'r cyhuddedig ddangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod y cyhuddedig yn credu bod y person y rhoddwyd y twll iddo, neu y gwnaed y trefniadau mewn cysylltiad ag ef, yn 18 oed neu'n hŷn, a • naill ai: <ul style="list-style-type: none"> (i) bod y cyhuddedig wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran y person hwnnw, neu (ii) na allai neb fod wedi amau'n rhesymol o olwg y person hwnnw fod y person o dan 18 oed. <p>Mae'r cyhuddedig, yn achos trosedd yn ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff person sydd o dan 18 oed, i gael ei drin fel pe bai wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran person arall:</p> <ul style="list-style-type: none"> • os gofynnodd y cyhuddedig i'r person hwnnw am dystiolaeth o oedran y person hwnnw, a • pe bai'r dystiolaeth wedi argyhoeddi person rhesymol. <p>Pan fo person wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd gweithred neu ddiffyg person arall, neu yn rhinwedd cymhwyso adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (helpwyr ac anogwyr), mae'n amddiffyniad i ddangos bod y person wedi cymryd rhagofalon rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.</p>
<p>Dirwy: Anghyfyngedig</p>	
<p>Adran 104 Rhwystro etc. cwnstabl neu swyddog</p> <p>Mae unrhyw berson sy'n rhwystro'n fwriadol gwnstabl neu swyddog awdurdodedig sy'n arfer swyddogaethau o dan adrannau 99 i 103 yn cyflawni trosedd.</p> <p>Mae unrhyw berson sydd, heb achos rhesymol, yn methu:</p> <ul style="list-style-type: none"> (a) â darparu i gwnstabl neu swyddog awdurdodedig gyfleusterau y mae'n rhesymol i'r cwnstabl neu'r swyddog awdurdodedig ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu darparu at ddiben gofyniad o dan adran 103(1), neu (b) â chydymffurfio â gofyniad o dan adran 103(1)(b) neu (d), <p>yn cyflawni trosedd.</p>	<p>Dim amddiffyniad statudol (h.y. dim wedi ei nodi ar wyneb y Ddeddf ac eithrio 'heb achos rhesymol')</p>
<p>Dirwy: Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol. (£1000 ar hyn o bryd)</p>	